PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY 1872

# Y CYNGOR

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd am 14.30 ar 19 IONAWR 2024, trwy Microsoft Teams.**

Yn bresennol: Ms Meri Huws, Cadeirydd y Cyngor; yr Athro Jon Timmis, Is-Ganghellor; yr Athro Tim Woods, Dirprwy Is-Ganghellor; Ms Kylie Evans; Mrs Ellen ap Gwynn; Ms Kate Eden; yr Athro Simon Green; Ms Louise Marshall; Mr Arwel Thomas; Mr Mark Tweed (tan eitem 5.2); Ms Jane Usherwood; Ms Claire Vaughan; Mr Bayanda Vundamina, Llywydd UMAber; a'r Athro Reyer Zwiggelaar.

Yn gweinyddu: Mr Simon Crick, Cyfarwyddwr Cyllid a Chynllunio; Mrs Jean Jones, Pennaeth Swyddfa'r Is-Ganghellor; Dr Gwawr Taylor, Ysgrifennydd y Brifysgol; a Mr Steve Thomas, Pennaeth Cyfathrebu a Materion Cyhoeddus.

Anfonwyd ymddiheuriadau gan Ms Rhuanedd Richards ac Elain Gwynedd.

## 34. MATERION I'W CODI GAN Y CADEIRYDD

Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau am ddod i gyfarfod arbennig y Cyngor i ystyried adroddiad blynyddol a chyfrifon 2022-23, a phapurau cysylltiedig, gan gynnwys yr Adnodd Credyd Cylchdroawl, a'r ffurflenni blynyddol i CCAUC.

## 35. GWRTHDARO BUDDIANNAU

Ni chafwyd datganiad ynglŷn â gwrthdaro buddiannau penodol yng nghyswllt y materion i'w trafod yn ystod y cyfarfod.

## 36. PENDERFYNIADAU A WNAED RHWNG CYFARFODYDD

Cyfarfu'r Pwyllgor Enwebiadau ar 18 Ionawr i ystyried aelodaeth y Cyngor. Argymhellwyd i'r Cyngor trwy e-bost i benodi Jane Usherwood ac Ellen ap Gwynn ar y Cyngor tan 31.7.24, yn amodol ar gymeradwyaeth CCAUC. Nododd yr aelodau eu cefnogaeth i'r cynnig, a chymeradwywyd y mater yn weithredol gan y Cadeirydd. Bydd hyn yn cael ei gofnodi hefyd yng nghyfarfod cyffredinol nesaf y Cyngor ym mis Mawrth [GWEITHREDU: Ysgrifennydd y Brifysgol].

## 37. ADNODD CREDYD CYLCHDROAWL

DERBYNIWYD

Diweddariad llafar gan Mr Simon Crick, Cyfarwyddwr Cyllid a Chynllunio.

NODWYD

1. Daeth y Brifysgol i gytundeb â'r banc, ac mae'r dogfennau wedi eu llofnodi o dan Sêl. Telir y ffi gweinyddol yn y man, a bydd y Brifysgol yn gallu trosglwyddo arian o'r adnodd.

2. Ar ôl trafodaethau â'r Cyngor Cyllido, gwneir blaen-daliad i'r Brifysgol i liniaru ansicrwydd posibl yn deillio o amseriad derbynebau, dyledion a rhagdybiaethau.

3. Nododd yr aelodau y ddyled oedd yn weddill gyda WEFO, sy'n gyfanswm o dros £4m. Mae'r Brifysgol wedi trafod y mater â'r Cyngor Cyllido.

4. Nododd Cadeirydd y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad fod y pwyllgor wedi craffu ar yr Adnodd Credyd, a'i fod yn fodlon ei argymell i'r Cyngor i'w gymeradwyo.

5. Diolchwyd i'r swyddogion a'r timau am eu gwaith a'u cyfathrebu agored trwy gydol y broses.

**PENDERFYNWYD**

6. Cadarnhawyd y penderfyniad, a chytunwyd ar y geiriad.

**38. ARCHWILIAD ALLANOL**

1. <u>Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2023</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Steve Thomas, Pennaeth Cyfathrebu a Materion Cyhoeddus a Mr Simon Crick, Cyfarwyddwr Cyllid a Chynllunio (ARC2324-031)

NODWYD

1. Cafodd y cynnwys ei ddiwygio a'i drafod i sicrhau asesiad cytbwys o'r flwyddyn, yn enwedig yn dilyn heriau diweddar. Mae rhai elfennau'n parhau'n gadarnhaol i adlewyrchu llwyddiannau a'r datblygiadau a welwyd yn ystod cyfnod Cadeirydd y Cyngor a'r Is-Ganghellor sy'n gadael.

2. Mae'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol yn rhoi sylw i'r trafferthion a'r cryfderau. Nid oes manylion yn ymwneud â Datgelu er Lles y Cyhoedd wedi'u cynnwys, ond mae'r effaith ar y sefydliad a'r amgylchedd rheoli yn cael ei fynegi.

3. At ei gilydd, mae KPMG yn gyfforddus bod y Brifysgol wedi cynnwys cymaint o wybodaeth â phosibl, yng ngoleuni'r ymchwiliad sy'n mynd rhagddo, a sensitifrwydd y materion cyfreithiol ac AD cysylltiedig.

4. Mae'r sefyllfa wedi cael ei hesbonio i CCAUC a bydd swyddogion yn deall cyd-destun ehangach yr adroddiad.

5. Mae'n ddyletswydd ar KPMG i amlinellu cwmpas eu gwaith, ond cytunwyd y dylid, lle bo risgiau cyfreithiol, rhoi braslun o'r pryder i KPMG ac y dylid cytuno ar y geiriad ar sail dealltwriaeth pawb am y sefyllfa. Dylid trafod y geiriad terfynol â'r Cadeirydd neu ei gyfeirio'n ôl at y Cyngor, yn ôl yr angen.

6. Trafododd yr aelodau y geiriad ynglŷn â darpariaeth pensiwn yr USS. Cadarnhawyd y gellid defnyddio ffigurau gwahanol, a bod gwahanol briswyr yn defnyddio tybiaethau gwahanol. Ni ystyriwyd hyn yn feirniadaeth.

7. Dylid ystyried unrhyw risg posibl i enw da, a dylid cynllunio ymateb yn unol â hynny. Dylid adolygu'r sefyllfa ariannol, ac ystyried y goblygiadau yn fanwl yn niwrnod encil strategol y Cyngor ym mis Mawrth.

8. Diolchodd y Cadeirydd i Gadeirydd yr Archwiliad am ei waith ac am waith craffu'r pwyllgor.

**PENDERFYNWYD**

6. Cymeradwyodd y Cyngor yr adroddiad mewn egwyddor. Dylid cynnal trafodaethau pellach â KPMG ynglŷn â'r geiriad terfynol, gan nodi bod gan KPMG awdurdod yn y pen draw i benderfynu beth oedd yn cael ei gynnwys. Dylid fodd bynnag tynnu sylw at y risgiau.

7. Cytunodd yr aelodau i ddirprwyo awdurdod i Gadeirydd y Cyngor gymeradwyo mân welliannau ac i gadarnhau'r geiriad terfynol. Pe byddai risgiau neu ddiwygiadau sylweddol, dylid ailymgynnull y Cyngor.

Gadawodd Mark Tweed y cyfarfod.

2. <u>ASSUR</u> (<u>Ffurflen Sicrhau Cynaliadwyedd Flynyddol</u>)

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Simon Crick, Cyfarwyddwr Cyllid a Chynllunio (ARC2324-032).

NODWYD

1. Mae'r adroddiad yn rhoi sicrwydd yn gysylltiedig â chynaliadwyedd ariannol y Brifysgol, gan ddangos bod ganddi ddigon o arian parod i fasnachu yn y tymor canolig.

2. Mae heriau i'w gweld ar draws y sector. Mae'r ffigurau a amcangyfrifir yn realistig, ond yr her fydd sicrhau gwelliannau ariannol dros y 2-3 blynedd nesaf.

3. Gofynnodd yr aelodau a oedd y rhagolwg presennol ar y trywydd iawn i sicrhau mai diffyg o £4.3m fydd y sefyllfa. Cadarnhawyd bod arbedion wedi'u nodi, bod cynnydd da yn cael ei wneud, a bod hyn yn unol â'r targed arbedion a ragwelir. Cafodd peth pwysau ychwanegol ei nodi o ran costau, yn benodol y gyllideb ynni. Mae'r rhagolygon yn dal ar y trywydd cywir, ond mae risgiau a phwysau ychwanegol yn gysylltiedig â sicrhau bod y gyllideb yn cael ei chyflawni.

4. Roedd carfan y myfyrwyr sy'n cael mynediad ym mis Ionawr yn edrych yn gadarnhaol. Pwysleisiwyd yr angen am ragdybiaethau cynllunio realistig, yn enwedig yng nghyd-destun marchnad heriol y myfyrwyr rhyngwladol. Ni ragwelwyd unrhyw incwm ychwanegol yng nghyswllt carfan mis Ionawr, felly byddai unrhyw fyfyrwyr a gofrestrir yn cryfhau sefyllfa'r gyllideb. Nid yw'r niferoedd mor gadarnhaol â'r llynedd, ond maen nhw'n well na'r disgwyl.

**PENDERFYNWYD**

5. Cymeradwyo'r Ffurflen Sicrhau Cynaliadwyedd Flynyddol.

## 39. MATERION LLYWODRAETHU

1. <u>Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd i'r Cyngor</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Dr Gwawr Taylor, Ysgrifennydd y Brifysgol (ARC2324-033).

NODWYD

1. Mae Adroddiad Blynyddol gan y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd yn un o ofynion y Cod Rheoli Ariannol ac mae'n cael ei rannu'n flynyddol â’r Cyngor Cyllido.

2. Roedd drafft wedi ei rannu â'r Cyngor ym mis Tachwedd, a chyflwynwyd braslun o'r diweddariadau.

**PENDERFYNWYD**

3. Cymeradwyodd yr aelodau Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd i'r Cyngor.

**40. UNRHYW FATER ARALL, AROLWG O'R CYFARFOD, A MATERION YN Y DYFODOL**

Cynhelir y cyfarfod nesaf ddydd Mawrth, 12 Mawrth 2024.

Daeth y cyfarfod i ben am 15:40.